





# Helpu Gartref efo Darllen





## Helpu Gartref gyda Darllen

### Cadarnhad

Mae angen i blant deimlo mor bositif ag sy'n bosibl a'u bod yn gallu llwyddo o ran darllen - yn enwedig os yw teimlad negatif eisoes wedi cychwyn oherwydd methiant blaenorol. Gall hyn arwain at y gylchred negatif o fethu ac felly methu eto (wedi dysgu bod yn ddiymadferth). Mae'n bwysig eich bod yn dangos eich bod gennych hyder yn ei gallu.

Mae hefyd yn bwysig i annog eich plentyn i ddarllen. Gall hyn arwain at wrthdaro felly gall cadw'r sesiwn yn fyr a chynnig gwobr fach helpu. Mae rhai plant sydd ag anawsterau darllen yn ofni ac yn osgoi unrhyw beth mewn print. Os ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau byddant yn osgoi darllen, ac felly mae'n bwysig eich bod yn eu hannog yn raddol er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddarllen. Peidiwch â phoeni am symud ymlaen i ddarllen llyfrau caletach ar hyn o bryd. Mae'n well i blentyn gael digon o amser ar lefel benodol.

Mae'n hanfodol i roi canmoliaeth yn aml. Ond, os yw plentyn wedi darllen darn yn wael byddant yn gwybod os ydych yn eu camarwain drwy ddweud eu bod wedi darllen yn dda. Mae'n llawer gwell dweud "Paid â phoeni, dal ati" a chanmol yr ymdrech yn hytrach na'r canlyniadau - mae cyfeirio at rywbeth maent wedi'i wneud yn dda, waeth pa mor fychan, yn gallu cynnal y lefel o bositif rwydd.



### Mwynhad

Ceisiwch ymdrin â darllen fel rhywbeth y gellid ei fwynhau gan y ddau ohonoch.

- Gwnewch eich hun yn gyffyrddus a pheidiwch â rhoi pwysau ar y plentyn neu gall droi'n diheurbrawf. Mae darllen er mwyn mwynhad yr un mor bwysig a darllen ar gyfer gwybodaeth.
- Darllenwch nes bydd y ddau ohonoch wedi cael digon a dewiswch egwyl naturiol yn y stori. Nodwch yn y llyfr lle rydych wedi stopio ar gyfer y tro nesaf. Byddai sesiynau darllen rheolaidd yn fuddiol. Mae'n llawer gwell darllen am 5 neu 10 munud y noson yn hytrach nag un sesiwn hanner awr yn ystod yr wythnos.
- Darparwch fodel rôl dda cymaint ag sydd bosib - os yw plant yn gweld eu rhieni'n darllen a defnyddio'r llyfrgell yna maent yn fwy tebygol o wneud hynny eu hunain.


### Y Sesiwn Ddarllen

Mae'r canllawiau isod yn ymgorfforí rhai technegau a ddefnyddir mewn rhaglen a ddefnyddir yn ysgolion drwy'r wlad er mwyn hybu darllen y rhai sy'n cael trafferthion gyda darllen. Mae'r technegau wedi profi i fod yn fuddiol iawn ond maent angen ymarfer. Peidiwch â phoeni am gael popeth yn iawn ar unwaith ond ceisiwch ddilyn cymaint ag sy'n bosibl.

## Dewis llyfr

Mae'r dewis o lyfr i'w ddarllen yn bwysig iawn. Ceisiwch ffeindio llyfr sydd yn wirioneddol ddiddorol i'r plentyn. Nid yw'n rhaid iddo fod yn llyfr stori gan fod llawer o blant yn hoffi llyfrau sy'n rhoi gwybodaeth. Serch hynny, gall rhoi dewis rhydd i'r plentyn arwain at ddewis llyfr sy'n llawer rhy galed. Mae angen cydbwysedd gofalus rhwng beth sydd yn ddiddorol a beth sydd yn ddarllenadwy. Ar gyfer plant hŷn gydag anawsterau darllen peidiwch â dewis llyfrau sydd yn amlwg ar gyfer plant iau. Nid oes dim a all droi plentyn 11 neu 12 oed i ffwrdd yn gynt na gorfod darllen llyfr ar gyfer plant 6 neu 7 oed. Byddai'n llawer gwell i ddewis llyfr ffeithiol addas.

Mae llawer o blant yn hoffi cylchgronau, yn enwedig am eu diddordebau. Gall cychwyn gyda chylchgronau fod yn gyflwyniad da i sesiwn ddarllen - hyd yn oed os yn ystod yr adegau cyntaf eich bod yn trafod y lluniau a darllen cymaint o eiriau ag sy'n bosibl ar y dudalen yn hytrach na ddarllen brawddeg wrth frawddeg. Gellir dweud yr un peth am lyfrau comig er bod y mwyafrif ohonynt yn tueddu i gael geirfa gyfyngedig sydd ddim yn ymestyn y plentyn. Serch hyn, cyn belled ag y maent yn darllen llyfrau hefyd nid oes unrhyw beth o'i le ar ddarllen cylchgrawn na chomig yn achlysurol. Mae mwynhau a bod yn gyffyrddus gyda sesiynau darllen a chaniatáu eich plentyn i wneud yr un peth yn ffactorau pwysig iawn gyda darllen llwyddiannus.



## Dod yn gyfarwydd â'r deunydd darllen / llyfr

Caniatewch i'r plentyn gyfarwyddo ei hun gyda'r deunydd darllen drwy ganiatáu iddynt edrych drwyddo cyn setlo lawr i ddarllen. Mae paratoi'r plentyn am yr hyn y mae'n mynd i'w ddarllen yn bwysig er mwyn caniatáu'r myfyriwr i ymdrin â'r testun gyda mwy o hyder.

Rhowch ddisgrifiad byr/cyffredinol o'r hyn sydd yn mynd i gael ei ddarllen fel y gallant ganolbwyntio ar ddarllen gyda dealltwriaeth. Gallwch gael y wybodaeth yma oddi ar gefn y llyfr a thrwy edrych ar y lluniau. Gall lluniau fod o ddefnydd mawr i'w trafod ac er mwyn deall y stori/gwybodaeth.

- Pwyntiwch at a dwedwch unrhyw air rydych chi'n meddwl bydd y plentyn yn ei ffeindio'n anodd (yn enwedig enwau/geiriau mwy/geiriau pynciol penodol). Mae'r cam hwn yn caniatáu'r plentyn i ganolbwyntio ar eiriau'n gywir ac i ddarllen yn llawer mwy cyfarwydd. Dylai hyn hefyd leihau rhywfaint o'r rhwystrau a all fel arall arwain at deimlad o fethiant. Mae'r cam hwn hefyd yn ddefnyddiol wrth benderfynu os yw'r deunydd darllen yn addas ar gyfer y plentyn. Os ffeindiwch eich bod yn pwyntio at nifer fawr o eiriau gall hynny fod yn arwydd bod y llyfr o bosib yn rhy anodd, ac os ychydig o eiriau mae'n bosibl nad yw'n ddigon heriol. Mae cychwyn ar lefel haws i'r plentyn yn well na chychwyn ar lefel sy'n profi i fod yn rhy anodd. Os yw plentyn yn cael profiad o lwyddiant darllen yna maent yn llawer mwy tebygol o'i fwynhau.

Os yw plentyn yn methu a darllen gair, awgrymwch yn gyntaf iddynt ddarllen at ddiwedd y frawddeg a dychwelyd at y gair anodd a cheisio gweithio allan beth allai fod. Mae'r gallu i ragweld pa air sydd yn gwneud synnwyr mewn brawddeg yn sgil defnyddiol gyda darllen. Os yw plentyn yn camddarllen gair ond bod y gair yn gwneud synnwyr, peidiwch â thorri ar ei draws. Nid yw'n hanfodol fod pob gair yn cael ei ddarllen yn gywir. Os nad yw'r camgymeriad yn gwneud synnwyr yna stopiwch nhw a gofynnwch iddynt feddwl am yr hyn maent newydd ddarllen, gan bwyntio allan y gair anghywir. Arhoswch am 6-8 eiliadau (gan gyfri'n dawel). Gall hyn ymddangos yn amser hir ar y cychwyn a gall fod yn anghyffyrddus i chi a/neu'r plentyn, ond mae o fudd gwirioneddol i'r plentyn cael yr amser meddwl/adeiladu gair ac i sylweddoli nad ydynt o dan bwysau i ruthro. Ar ôl yr ysbaid yma, os yw'r plentyn yn dal i fethu darllen y gair, rhowch un neu ddau anogair i annog nhw i ddatrys y gair.

e.e. Gyda be mae'r gair yn cychwyn?
Allwch chi dorri'r gair i fyny?
Allwch chi roi'r synau yma gyda'i gilydd? (cysylltiadau cytseiniaid fel bl, br, cl, cr, fr, fl, gr, sb, st, tr )
Ydi'r gair yna yn gwneud synnwyr?

Os yw'r plentyn yn dal methu darllen y gair yna, rhowch y gair iddynt.

Mae canmoliaeth yn bwysig iawn er mwyn hybu hunan barch a chynnal positif rwydd. Dyma rai esiamplau penodol o le dylid rhoi canmoliaeth sydd hefyd yn amlygu sgiliau darllen da.

Canmolwch y plentyn pan:

- Mae ef/hi'n ymdrechu i ddadgodio gair naill ai drwy ddefnyddio'r llythyren gyntaf, mwy nag un llythyren, drwy gyfuno synau (fel cyfuniadau cytseiniaid uchod) neu ddarnau mwy i mewn i sillafau.
- Mae ef/hi'n rhoi gair arall synhwyrol
- Mae ef/hi'n hunan gywiro.
- Mae ef/hi'n rhoi sylw i atalnodi.
- Mae ef/hi darllen gyda mynegiant.

Gellir rhoi canmoliaeth yn dawel drwy'r holl sesiwn darllen a hefyd trafod agweddau cadarnhaol o lwyddiant arbennig y plentyn ar y diwedd. Mae'n bwysig egluro gan ddefnyddio'r awgrymiadau uchod beth yn union oedd yn dda ynglŷn â'r ffordd taclodd y plentyn y testun.



Gall ail ymweld â geiriau roedd y plentyn yn cael trafferth gyda nhw ar ddiwedd y sesiwn ddarllen fod yn fuddiol iawn. Dewiswch un neu ddau o'r geiriau a dylai'r plentyn fod yn gyfarwydd â hwy. Byddai gwneud rhestr o'r geiriau yma ac ail ymweld â hwy ar gychwyn pob sesiwn ddarllen yn broses defnyddiol, fel y mae dysgu sut i sillafu'r geiriau hynny hefyd.

Os yw plentyn wedi cael anhawster gyda darllen yna mae dealltwriaeth lawn o'r hyn sydd newydd gael ei ddarllen yn anodd. Weithiau mae plant yn gallu darllen bron pob gair yn berffaith ond eto'n ffeindio hi'n anodd deall yr ystyr. Mae rhai cwestiynau defnyddiol er mwyn cael eich plentyn i stopio a meddwl am yr hyn maent wedi'i ddarllen wedi eu rhestru isod a hefyd maent yn ddefnyddiol fel mesur i chi i wirio eu dealltwriaeth:

Beth yw enwau'r prif gymeriadau?
Pam fod (y cymeriad) yn...?
Pa gymeriad yr hoffech chi fod a pham?
Pam ddywedodd y cymeriad...(dyfynnwch allan o'r llyfr)?
Sut buasech yn teimlo petai....(rhywbeth a ddigwyddodd yn y stori) ?
Beth oeddech chi'n ei ffeindio'n ddiddorol am...?
Beth wnaethoch chi ddysgu am...?
Beth fuasech chi'n ei wneud petaech chi oedd... (cymeriad)?

Gellir gofyn rhai o'r cwestiynau yma fel mae'r plentyn yn darllen a gall rhai bod yn fwy priodol ar y diwedd - mae hyn yn dibynnu ar beth sydd yn teimlo'n naturiol a chyffyrddus ac mae hyn yn berthnasol ar gyfer beth yr ydych chi'n ei benderfynu ei ofyn hefyd. Peidiwch â disgwyl atgofio perffaith. Gall weithgareddau dilyn i fyny fod yn ddefnyddiol hefyd i gynhyrchu tystiolaeth o ddealltwriaeth. Gall y rhain gymryd sawl ffurf fel darluniau, adroddiad llyfr neu sesiynau cwestiwn ac ateb. Fodd bynnag, mae'n bwysig i beidio chwalu'r pleser o ddarllen drwy ofyn am ormod.



## Ail Adrodd

Gall blant hoffi ddarllen y stori fwy nag unwaith, er mwyn ennill hyder. Mae ail adrodd yn bwysig ar gyfer y rhai gydag anawsterau darllen ac felly mae'n fuddiol un ai ail adrodd yr un llyfr neu ddarllen llyfr gyda nifer o eiriau tebyg.

## Gwneud defnydd o ddarllen

Rhowch ddarllen llwyddiannus i ddefnydd da. Caniatewch i'r plentyn ddarllen y stori neu ddarn i blant iau neu gadewch iddynt glywed eu hunain yn darllen yn dda gan recordio nhw. Gall ymddangos yn ddiflas, ond gadewch iddo/iddi ddarllen yr un darn mwy nag unwaith os yw eisiau gwneud hynny. Mae'r cwbl yn help i adeiladu'u hyder.

## Darllen Tawel

Gadewch i'r plant ddarllen yn dawel ar adegau, ac yna siarad am yr hyn maent wedi'i ddarllen. Edrychwch am dystiolaeth o ddealltwriaeth.

## Darllen Anuniongyrchol

Gellir gwneud cryn dipyn o'r hyn y gellir ei alw'n darllen anuniongyrchol. Mae hyn yn rhoi ymarfer ac yn dangos pa mor ddefnyddiol yw darllen. Gwnewch gasgliadau o eiriau sy'n ymddangos ar hysbysebion teledu. Bydd y rhain yn ystyrlon i'r plant a byddant yn eu dysgu'n fuan a hwyrach yn cael eu defnyddio mewn llyfr lloffion neu boster. Anogwch eich plentyn i edrych fyny'r amseroedd ar gyfer rhaglenni teledu. Hwyrach bydd angen i chi ysgrifennu pob un teitl ar gerdyn fel y gallant ddod o hyd iddynt. Yn fuan bydd y teitlau yn cael eu darllen yn annibynnol.

Ar deithiau anogwch y plant i ffeindio enwau llefydd ar fap ac yna chwilio amdanynt ar arwyddbyst.

## Gemau

Mae unrhyw gemau sy'n cynnwys darllen geiriau ar y lefel briodol yn ddefnyddiol gan nad yw plant yn tueddu i weld hyn fel gwaith darllen ac fel arfer mae ganddynt agwedd well tuag at gymryd rhan o ganlyniad. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn arfer defnyddiol iawn o'u sgiliau darllen.

Mae TRUGS yn anagram o 'teach reading using games'. Mae gan y cwmni sy'n cynhyrchu'r adnoddau hyn setiau penodol sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gartref. Mae'r setiau ar gael ar wahanol lefelau ac yn cynnwys ystod o gemau i wella cydnabyddiaeth o eiriau amledd uchel. Maent ar gael gan y cwmni sy'n eu cynhyrchu yn www.readsuccessfully.com neu www.gwales.com

Os yw'r holl wybodaeth yma'n eich digalonni yna cofiwch y dylai'r sesiynau darllen fod yn hwyl ac nid yn dasg anodd i chi na'ch plentyn. Ceisiwch ddefnyddio cymaint o'r awgrymiadau ag sydd bosib ond heb iddo fynd yn boen ac yn fuan byddwch wedi datblygu eich steil eich hun a fydd yn teimlo'n naturiol a chyffyrddus ac yn arwain at fwynhad a llwyddiant i chi ac i'ch plentyn.

